Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.11 Gwirfoddolwyr a'r gyfraith

Gwirfoddolwr neu weithiwr cyflogedig?

Fel arfer, nid oes gan wirfoddolwyr lawer o hawliau cyfreithiol, yn annhebyg i staff cyflogedig sydd â llawer o ddiogelwch dan ddeddfwriaeth cyflogaeth. Gallant hawlio'r fath bethau â diswyddo annheg, anffafriaeth ar sail hil, anabledd a rhyw, cyflog cyfartal, lleiafswm cyflog ac ati. Mae rhai mudiadau, fodd bynnag, yn creu cytundebau cyflogaeth heb yn wybod iddynt yn y ffordd y maent yn gweithio'n agos gyda gwirfoddolwyr. Gall hyn ei wneud yn bosib i wirfoddolwyr ystyried gweithredu cyfreithiol pan fo ganddynt gwyn.

Wrth benderfynu a oes cytundeb yn bodoli ai peidio, ac o ganlyniad a ellir dwyn achos dan gyfraith cyflogaeth, bydd tribiwnlys yn ystyried pethau megis talu treuliau, hyfforddiant, disgwyliadau'r mudiad ynghylch ei wirfoddolwyr, a'r ffordd y cofnodir eu perthynas. Mae'r meysydd yma yn creu potensial ar gyfer creu cytundeb.

Er mwyn i gytundeb fodoli, rhaid i'r gwirfoddolwr a'r mudiad gyfnewid rhywbeth o werth - gelwir hyn yn **gydnabyddiaeth**. Mewn gwirionedd, mae hwn yn dibynnu os yw mudiad yn darparu rhywbeth o werth i'r gwirfoddolwr, megis talu mwy na mân dreuliau, ffioedd cyfradd unffurf neu sesiynol, taliadau un-tro a honoraria, neu gynnig cilfanteision eraill megis gostyngiadau siop, mynediad am ddim neu bris gostyngol i ddigwyddiadau a gwasanaethau, neu hyfforddiant tu hwnt i'r hwn sydd ei angen i alluogi'r gwirfoddolwr i gyflawni'i ddyletswyddau.

Ail ystyriaeth cytundeb yw **bwriad** - os yw'r gwirfoddolwr neu'r mudiad yn bwriadu gwneud eu cytundeb yn gyfreithiol rwymedig, h.y. gallant fynd i'r llys i fynnu eu hawliau. Pennir hwn drwy edrych ar y taliadau a dderbyniwyd gan y gwirfoddolwr ac os oedd rhwymedigaeth gwaith megis lleiafswm oriau. Mae mwyafrif gwirfoddoli yn ddiffygiol o ran 'bwriad' ac mae hyn yn rhwystro cytundeb.

Talu treuliau

Mae talu mân dreuliau gwirfoddolwyr yn ymarfer da ar gyfer sicrhau fod gwirfoddoli ar gael i bawb, nid dim ond y rhai all ei fforddio. Weithiau mae'n demtasiwn i dalu mwy na'r gwir symiau a wariwyd fel ffordd o wobrwyo gwirfoddolwyr. Wrth wneud hyn mae mudiad yn creu sefyllfa gytundebol, gan ddod ag atebolrwydd dan ddeddfwriaeth Lleiafswm Cyflog, gyda goblygiadau treth a budd-dal ar gyfer gwirfoddolwyr.

Systemau treth a budd-daliadau

Mae Cyllid y Wlad a'r Adran Nawdd Cymdeithasol yn cydnabod y mathau canlynol o dreuliau fel rhai cyfreithlon:

- teithio i ac yn ôl o'r lleoliad ble digwydd y gweithgaredd gwirfoddoli
- teithio yn ystod gwirfoddoli
- prydau bwyd yn ystod gwirfoddoli (cydnabyddir bod hyd at £5 yn rhesymol)
- costau postio a ffonio
- gofal dibynyddion yn ystod y cyfnod gwirfoddoli
- cost dillad gwarchod neu arbenigol

Mae'r ddwy adran yn hapus cyn belled â bod y treuliau a delir i'r gwirfoddolwyr ar radd 'rhesymol' e.e. dylai cyfraddau milltiredd fod o fewn cyfyngderau Cyllid y Wlad. Dylai taliadau fod yn amodol ar dderbynebau gwariant gan y gwirfoddolwyr.

Cyfraddau milltiredd Cyllid y Wlad

Mae yna un gyfradd a argymhellir gan Gyllid y Wlad ar gyfer ad-dalu cyfraddau milltiredd. Bydd unrhyw daliadau uwchben hwn yn atebol i dreth. Dyma gyfraddau presennol 2006 / 7:

Cyfraddau milltiredd 2006-7	Ceir/ faniau	Beiciau modur	Beiciau
Am y 10,000 milltir gyntaf yn y flwyddyn ariannol, y filltir	40c	24c	20c
Am bob milltir dros 10,000 milltir	25c	15c	-
Am bob teithiwr	5c	-	-

Buddiannau

Gall y rhain gynnwys **cydnabyddiaeth** ble mae yna ymrwymiad o'r mudiad i'w cynnwys, a disgwyliad gan y gwirfoddolwr i'w derbyn. Gallant gynnwys y fath bethau ag aelodaeth am ddim neu nwyddau am gyfnod gwasanaeth. Ond nid yw gair o ddiolch achlysurol megis parti neu wibdaith gymdeithasol yn cyfrif fel **cydnabyddiaeth** nac ychwaith yn dynodi **bwriad**.

Ymrwymiadau

Pan fo angen i wirfoddolwyr weithio lleiafswm o oriau gellir dehongli hyn fel trefniant cytundebol, yn enwedig pan ddarperir hyfforddiant fel buddiant yn gyfnewid am ymrwymiad gwaith.

Os yw gwirfoddolwyr yn derbyn taliad cyfradd unffurf yn y disgwyl y byddant yn ymgymryd â lleiafswm oriau gwaith, gellir dehongli hyn fel **cydnabyddiaeth** a **bwriad**, ac edrychir arno bron yn sicr fel cytundeb cyfreithiol os yw'r gwirfoddolwr yn dwyn achos.

Hyfforddiant

Mae angen hyfforddiant i alluogi gwirfoddolwyr i wneud eu tasgau yn effeithiol ac yn ddiogel, ac mae yna oblygiadau dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch ble nad yw gwirfoddolwyr wedi derbyn hyfforddiant digonol. Fodd bynnag, ble bynnag y ceir hyfforddiant sydd ddim yn berthnasol i'r tasgau, ond sydd er lles personol y gwirfoddolwyr, yn enwedig os gwelir hyn fel hawl gan y gwirfoddolwyr, gall hwn fod yn **gydnabyddiaeth.**

Defnydd iaith

Nid yw iaith yn unig yn rhan o gytundeb, ac ni fu'n ffactor hanfodol mewn unrhyw ddeddf achos.

Fodd bynnag, wrth ffurfioli perthynas gyda gwirfoddolwyr drwy ddulliau a pholisïau ysgrifenedig, peth doeth fyddai osgoi iaith gyda goblygiadau cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys geiriau fel 'contract', 'disgrifiad swydd', 'cyflogwr' ac ati, a ellir eu disodli gan eiriau megis 'cydsyniad', disgrifiad tasg neu rôl', 'mudiad'. Dywedwch y byddwch yn 'gobeithio' bydd gwirfoddolwr yn gwneud rhywbeth, yn lle dweud bod 'rhaid' iddynt wneud.

Cytundebau gwirfoddolwyr

Mae'n addas ac yn ymarfer da i ddogfennu beth mae'r mudiad yn ei gynnig, yn ei ddisgwyl gan ei wirfoddolwyr, gan fod hyn yn fwy tebygol i rwystro'r berthynas rhag llithro i un fwy cyfreithiol.

Cadwch bethau'n syml, a pheidiwch â gor-ffurfioli'r iaith. Gallwch ychwanegu i'r cytundebau gwirfoddoli geiriau megis 'Mae'r cytundeb yn orfodol mewn anrhydedd yn unig, ac nid yw'n gytundeb cyflogaeth nac yn gyfreithiol.' Fodd bynnag, nid yw hyd yn oed hyn yn ddigon i'ch diogelu rhag y gyfraith os yw'ch ymarferion gwaith yn awgrymu fel arall.

Hawliau eiddo deallus

Un cwestiwn a gododd yn ddiweddar yw 'pwy sy berchen hawlfraint gwaith y gwirfoddolwyr?' Yr ateb yw ' y gwirfoddolwr, os na nodir yn glir fod hawliau eiddo deallus yn pasio ymlaen i'r mudiad'. Mae gan wirfoddolwyr rôl werthfawr wrth greu cynlluniau, darluniau neu ddata. Dan gytundeb cyflogaeth, mae hawlfraint deunydd o'r fath a grëwyd gan weithiwr i'r cyflogwr yn ystod oriau gwaith yn pasio i'r cyflogwr. Fodd bynnag, dan drefniant gwirfoddoli dilys, nid oes yna drosglwyddiad hawlfraint ymhlyg.

Gall sefyllfa godi felly os yw elusen yn cweryla gyda gwirfoddolwr, gall y gwirfoddolwr dynnu nôl ei ganiatâd i ddefnyddio'r deunydd hawlfraint. Os yw'r deunydd yn cael ei gynnwys mewn prif gyhoeddiadau neu ddogfennau craidd yr elusen, gall yr elusen brofi anawsterau llym neu embaras a cholled ariannol posib os yw'r deunydd yn cael ei dynnu allan. Gwell fyddai sicrhau fod cytundeb hawlfraint syml yn cael ei baratoi rhwng y gwirfoddolwr sy'n cynhyrchu unrhyw ddeunydd a'r elusen.

Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o gysylltiadau gwirfoddolwr / mudiad yn dirwyn i ben yn gyfeillgar, er bod rhai achosion cyfreithiol llwyddiannus yn dangos fod yna rai peryglon syml a ellir eu hosgoi er mwyn lleihau posibilrwydd y gwirfoddolwyr i gymryd camau pellach. Nid yw'n golygu y dylai mudiadau ruthro i ail-ysgrifennu'r holl bolisïau neu daflu ffwrdd yr holl arferion da a ddatblygwyd ynghylch gwirfoddoli. Ni phrofir llawer o achosion ar ddefnydd terminoleg 'cyfreithiol' neu fodolaeth polisïau tebyg i rai gweithwyr. Bydd y gyfraith yn edrych ar arferion gweithio a ellir eu dehongli fel cytundebau cyfreithiol. Dylai'r pwyslais felly fod ar sicrhau fod y rhain y tu allan i berthynas gyfreithiol:

- Gwnewch beth a allwch i sicrhau triniaeth deg i wirfoddolwyr, a bod dulliau da ar gyfer setlo anghydfod.
- Gwnewch yn glir fod rolau'r gwirfoddolwyr yn wirfoddol, h.y. heb dâl.
- Ceisiwch osgoi defnyddio jargon cyfreithiol neu gyflogaeth megis 'gwaith', 'contract' neu 'disgrifiad swydd'.
- Cydnabyddwch na allwch ofyn i wirfoddolwyr i ddarparu gwasanaeth yn gyfnewid am hyfforddiant.
- Peidiwch â thalu treuliau cyfradd unffurf, ffioedd sesiynol, cyfandaliadau neu unrhyw beth mwy na mân dreuliau.
- Ystyriwch oblygiadau cyfreithiol cynnig cilfantais i wirfoddolwyr megis aelodaeth am ddim, rhoddion, nwyddau, gwasanaethau ac ati.

Gwybodaeth bellach

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
www.hmrc.gov.uk

Adran Gwaith a Phensiynau
www.dwp.gov.uk

VolResource
www.volresource.org.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB
Elusen Gofrestredig *1061364*

Ffôn: 01570 423232 gen@cavo.org.uk
Ffacs: 01570 422427 www.cavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:04/12/2009

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk